| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2025** |
| TEITL: | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2025/26** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu'r strategaeth a chadarnhau trefniadau cronni** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2025/26, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2025/26 ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025.

## 2. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £10 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £45 miliwn.

## 3. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Mae'r adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn cynnwys cytundeb i barhau'r trefniant cronni gyda'r Gronfa Bensiwn yn dilyn unrhyw gais gan y Pwyllgor Pensiynau.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys atodol am 2025/26, fel ei addaswyd i bwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd (Atodiad A).

4.2 Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2025 ymlaen.